NHS
Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion

Cyngor i gleifion

19

Rhybudd

28 Mawrth 2007

DEALL CYNGOR YR ASIANTAETH

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn helpu sefydliadau gofal iechyd i ddarparu gofal iechyd mwy diogel i bawb. Mae'r wybodaeth yma am gyngor yr Asiantaeth i sefydliadau gofal iechyd ynglŷn â gofalu bod moddion hylifol trwy'r geg yn cael eu gweini'n ddiogel.

Hyrwyddo mesur a gweini mwy diogel o foddion hylifol trwy'r geg

Rhoddir moddion neu fwyd hylifol yn aml i fabanod, plant ifanc ac i oedolion sy'n methu llyncu bwyd solet. Gallant gael eu rhoi trwy'r geg neu drwy gyfrwng tiwb bwydo o'r trwyn i stumog y claf .

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn ymwybodol fod rhai cleifion wedi cael niwed am fod ganddynt diwb bwydo a thiwb mewnwythiennol ar yr un pryd; cafodd moddion neu faeth ei fwydo i'r gwaed oherwydd bod y ddau diwb wedi cael eu cymysgu.

Un o'r rhesymau am hyn ydy bod chwistrelli mewnwythiennol yn cael eu defnyddio i fesur a gweini moddion hylifol trwy'r geg. Wrth sugno moddion o'r math yma i chwistrell fewnwythiennol, gallant gael eu cysylltu i gathetr mewnwythiennol a pheiriant gweini, a'u rhoi mewn camgymeriad. Mae gan rai tiwbiau bwydo borth mynediad ar gyfer moddion sy'n gofyn am ddefnyddio chwistrell fewnwythiennol.

Rhoddodd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion gyngor i sefydliadau gofal iechyd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y gallai camgymeriad o'r fath ddigwydd eto. Mae'r Asiantaeth yn argymell i'r sefydliadau hyn mai dim ond chwistrelli bwydo trwy diwb neu drwy'r geg sy'n cael eu defnyddio i fesur a gweini moddion hylifol drwy'r geg. Mae hefyd yn argymell mai tiwbiau bwydo gyda phyrth cyswllt ar gyfer chwistrelli bwydo trwy'r geg neu drwy diwb yn unig ddylid eu prynu gan sefydliadau gofal iechyd o fewn y 12 mis nesaf.

Effaith y cyngor hwn arnoch chi

Ar hyn o bryd, pan fydd cleifion yn methu â chymryd moddion ar lwy, neu fod rhaid iddynt gymryd moddion hylifol na ellir eu mesur â llwy, mae'r fferyllydd yn darparu chwistrell 'eneuol' ar gyfer mesur y dos a chymryd y moddion. Mae hyn yn wir am gleifion yn yr ysbyty a gartref. Bydd y trefniant hwn yn parhau.

Ond os bydd cleifion i dderbyn moddion hylifol neu fwyd drwy diwb bwydo, bydd siap y porth ar y tiwb bwydo a'r math o chwistrell sy'n ffitio'r porth yn newid. Bellach, ni fydd chwistrelli a ddefnyddir i roi moddion mewnwythiennol yn gallu cysylltu â thiwb bwydo.

Mae cynhyrchwyr y tiwbiau bwydo yn bwriadu ymgorffori'r newidiadau hyn yn eu cynnyrch erbyn 31 Mawrth 2008. Tan hynny, gall ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ddefnyddio'r offer sydd ganddynt, ond gan reoli'r risg yn ofalus pan fydd chwistrelli mewnwythiennol yn cael eu defnyddio i weini moddion drwy diwbiau bwydo.

Os ydych chi'n defnyddio tiwb bwydo, fel tiwb *gastrostomy* neu *jejunostomy*, gall golwg y cysylltiadau a'r pyrth newid yn y dyfodol agos. Bydd y chwistrelli a ddefnyddiwch i gysylltu â'r pyrth yn newid i gyd-fynd. Gall eich dietegydd yn yr ysbyty neu'r gymuned, eich nyrs ardal neu eich fferyllydd roi cyngor mwy manwl ichi am sut y bydd hyn yn effeithio arnoch chi.

Ynglŷn â'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion

Mae'r Asiantaeth yn hyrwyddo gofal iechyd mwy diogel drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ddiogelwch cleifion gan staff a chleifion, a thrwy weithio gyda sefydliadau gofal iechyd i hybu diwylliant agored a theg.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am waith yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, ewch i'n gwefan ar: **www.npsa.nhs.uk**